Y Ystafell Reoli Tân ar y Cyd - Wrth gefn

SWYDD-DDISGRIFIAD

Adran	Rheoli Tân
Swydd	Rheoli Diffoddwyr Tan Wrth Gefn
Lleoliad	Ystafell Reoli Tân ar y Cyd - Pencadlys Heddlu De Cymru Pen-y-bont ar Ogwr
Yn gyfrifol i'r	Rheolwr Rheoli

PRIF BWRPAS Y SWYDD
• Gweithio fel rhan o dîm i dderbyn galwadau brys a nad sy'n frys gan aelodau'r cyhoedd ac asiantaethau eraill. • Danfon adnoddau yn unol a chyfarwyddau

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:

1 I ateb a phrosesu galwadau brys, a darparu cymorth priodol i alwyr.

2 I drosglwyddo a derbyn negeseuon drwy law'r radio.

3 I fod yn hyfedr mewn gweithredu offer Rheoli

4 I sicrhau yr arddangosir yr argaeledd cywir o swyddogion a pheiriannau tân ar bob adeg.

5 I hysbysu'r gwasanaethau brys a'r cwmnïau gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ôl y weithdrefn a osodir.

6 I hysbysu'r swyddogion syss ar gael

7 I fod yn hyfedr mewn gweithdrefnau parhad busnes a hydwythedd

8 I gynnal coflyfrau digwyddiadau cywir lle cofnodir pob gweithgaredd sydd yn gysylltiedig â digwyddiadau.

9 I sicrhau y cofnodir pob diffyg yn gywir a'u riportio yn ôl yr angen.

10 I gyflawni dyletswyddau gweinyddol sy'n ofynnol gan y swyddog tan

11 I weithio'n gydweithredol â phob asiantaeth brys ledled Cymru yn ôl y gofyn.

12 Os bydd angen, cynorthwyo gyda hyfforddiant a goruchwylioDiffoddwyr Tan Wrth Gefn sy'n datblygu yn y swydd.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- I gwblhau'r holl ddyletswyddau sy'n gymesur a'r gradd a'r swydd.
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath, a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth.
- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

N Pearce 07.10.22